



Teleofal

OPSIYNAU DIOGELU AC
AMDDIFFYN YN Y CARTREF

Teleofal ym Mro Morgannwg



DEWIS GWASANAETHAU

www.bromorgannwg.gov.uk

Telecare

OPSIYNAU DIOGELU AC
AMDDIFFYN YN Y CARTREF

DEWIS GWASANAETHAU

Beth yw Teleofal?

Gwasanaethau ac offer sy'n defnyddio technoleg i gadw pobl fregus yn fwy diogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain yw Teleofal. Weithiau dyma'r unig wasanaeth y bydd pobl yn ei gael ac weithiau bydd y gwasanaeth yn cael ei gynnig gyda gwasanaethau eraill mewn pecyn gofal.

Gall systemau Teleofal gael eu cysylltu â'r ganolfan fonitro yn y Barri sydd ar agor bob awr o'r dydd a'r nos drwy gydol y flwyddyn ac yn cael ei rhedeg o ganolfan gyswllt UnFro. Bydd gweithredwyr hyfforddedig yn y fan honno wedyn yn dod i wybod yn fuan am unrhyw ddamweiniau neu argyfwng ac yn gallu cymryd y camau priodol drwy gysylltu â'r gwasanaethau brys neu ofalwr neu berthynas penodol ('daliwr yr allwedd'). Weithiau tawelu meddwl a chynorthwyo'r person drwy ddefnyddio'r system fonitro yw'r cyfan sydd ei angen.

Gall system Deleofal hefyd gysylltu'n uniongyrchol â gofalwr personol neu berthynas neu weithredu'n annibynnol fel larwm sy'n seinio ohono'i hun er mwyn atgoffa rhywun ei bod yn amser cymryd moddion, er enghraifft.

Manteision Teleofal

- mae'n wasanaeth cyfeillgar ac urddasol
- mae'r offer yn hawdd ei ddefnyddio
- mae'n rhoi tawelwch meddwl i'r cleient a'i berthnasau/ffrindiau

- mae'n ysgafnhau'r pwysedd sydd ar deuluoedd a gofalwyr oherwydd eu holl ddyletswyddau a'r galw ar eu hamser
- mae'n golygu y gall pobl barhau i fyw'n annibynnol heb gymaint o gefnogaeth
- mae'n cynnig pob math o becynnau er mwyn bodloni union anghenion ac amgylchiadau unigolyn
- mae'n sicrhau bod help ar gael bob awr o'r dydd a'r nos drwy gydol y flwyddyn wrth wasgu botwm yn unig. Pan fydd diogell allwedd/daliwr allwedd gan y cleient, y mae'n sicrhau y gall y gwasanaethau brys gael mynediad i'w dŷ ar unwaith
- bydd yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau pan fo hynny'n briodol (e.e. i feddyg y cleient) er mwyn cael bod yn sicr o ddarparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol mor gynhwysfawr ag sy'n bosibl.

Pwy all fanteisio ar wasanaeth Teleofal?

Caiff pawb yn y gymuned sydd am deimlo'n fwy diogel ac wedi'i amddiffyn yn ei gartref ei hun fanteisio ar Deleofal beth bynnag fo'i oedran. Mae hynny'n cynnwys:

- pobl anabl
- pobl sy'n ymdopi bob dydd â salwch difrifol neu
- dymor hir
 - pobl sydd newydd gael eu rhyddhau o'r ysbyty ar ôl
- llawdriniaeth fawr neu fach, ney salwch
 - pobl sydd am deimlo'n fwy diogel yn unig.

Teleofal ym Mro Morgannwg

Cynigiwn ddwy lefel o wasanaeth ar hyn o bryd:



1. Tri pheccyn o offer diogelwch sy'n cysylltu'r cleient â'r ganolfan fonitro yng nghanolfan gyswilt UnFro yw TeleV. Mae'n defnyddio cyfarpar hawdd ei drin sydd ynghlwm wrth ffôn cyffredin a soced trydan. Caiff y cleient

declyn i'w wisgo o gwmpas ei wddw neu'i arddwrn neu ar wregys, sy'n anfon signal radio. Bydd gan y teclyn hwnnw hefyd synwryddion ychwanegol sydd (gan ddibynnu ar y math o becyn) yn cysylltu â larwm cyn gynted fyth ag y bydd mwg, tymheredd eithafol, carbon monocsid, tresbaswyr neu berygl o godwm wedi'u canfod.

Caiff unrhyw un sy'n byw yn y Fro fanteisio ar TeleV am gynlleied â £4.50 yr wythnos a thaliad sefydlog (ffi osod) o £59.50 ar y dechrau. Er mwyn gwneud cais neu holi ymhellach am y gwasanaeth hwn, cysylltwch â chanolfan gyswllt UnFro drwy ddefnyddio'r manylion ar gefn y daflen.



2. Mae TeleV+ yn wasanaeth mwy pwrpasol ac arbenigol sy'n cael ei gynnig yn aml fel rhan o becyn diogelwch cyffredinol. Mae'n helpu pobl i ymdopi â phroblemau sy'n fwy o berygl ac yn fwy o fygythiad i'w hannibyniaeth nag arfer.

Mae cyfarpar arbennig ar gael i helpu gyda chyflyrau fel y clwy digwydd; gorddrysych a chrwydro; problemau symud, cwmpo a methu cydbwysu; anymatal; problemau sy'n ymwneud â maeth ac yfed digon o ddŵr; yr angen am gofio moddion a threfniadau sy'n sicrhau bod pobl yn cael eu traed danynt ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae pob math o gyfarpar hefyd nad oes angen ei gysylltu â'r ganolfan fonitro sy'n aml yn darparu'n well ar gyfer anghenion y cleient na'r offer eraill.

Bydd TeleV+ yn cael ei asesu'n bennaf drwy Asesiad Unedig gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, ac y mae'n rhaid i unigolion fodloni meini prawf cymhwysu critigol neu sylweddol er mwyn ei ddefnyddio. **Bydd cleientiaid yn talu hyd at £7.50 yr wythnos am y gwasanaeth gan ddibynnu ar y cymorth ariannol sydd ar gael iddynt.**

Caiff trigolion y Fro nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwyso hyn hefyd fanteisio ar TeleV+ drwy dalu'r ffi o £7.50 yr wythnos eu hunain.

Cewch fwy o wybodaeth am y cyfarpar sydd ar gael drwy ffonio canolfan gyswilt UnFro a gofyn am dîm Teleofal.

Gwasanaeth Ail-alluogi TeleV+

Mae **gwasanaeth Ail-alluogi TeleV+** dan ofal tîm ail-alluogi Gwasanaeth Gofal Canolradd y Fro. Ni yw'r rhai cyntaf yng Nghymru i ddatblygu'r gwasanaeth hwn yn y ffordd arbennig yma a'i ddiben yw helpu pobl sydd newydd gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Gellir gosod y cyfarpar arbennig yn nhai cleientiaid mewn chwinciad a'i dynnu oddi yno'r un mor hawdd pan na fydd angen y gwasanaeth mwyach. Bydd y cyfarpar yn cysylltu'n bennaf â'r ganolfan fonitro yng nghanolfan gyswilt UnFro.

Cynigir y gwasanaeth am ddim am hyd at 6 wythnos i rai sydd wedi'u cyfeirio gan Wasanaeth Gofal Canolradd y Fro. Ar ôl hynny, caiff cleientiaid un ai barhau i dderbyn gwasanaeth TeleV/TeleV+ ynteu gofyn am gael eu hasesu gan weithiwr iechyd neu weithiwr gofal cymdeithasol.



Beth dylwn i ei wneud nesaf?

Am fwy o wybodaeth am wasanaethau Teleofal neu am Becyn Gwybodaeth a Chais, ffoniwch ganolfan gyswllt UnFro ar 01446 700111.

Bydd canolfan gyswllt UnFro'n anfon ceisiadau am wybodaeth fwy arbenigol ymlaen at Swyddog Cymorth Teleofal y Fro sydd hefyd yn gallu ymweld â phobl yn eu cartrefi er mwyn cael penderfynu pa becyn a fyddai orau iddynt.

Oes angen mwy o wybodaeth neu gyngor arnoch?

Contact
Holwch



OneVale
UnFro

01446 700111

www.valeofglamorgan.gov.uk

Os hoffech gael y daflen hon mewn iaith neu fformat arall, y mae croeso i chi ffonio'r Tîm Arloesi a Gwybodaeth ar 01446 704851

Prisiau'n gywir o Ebrill 2011 ymlaen
Cyfeirnod y daflen SS/72/APR11